

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

Swyddog Cyfathrebiadau, Atynnu ac Ymgysylltu

37 AWR YR WYTHNOS

CYFEIRNOD: 503104

GRADD 7 - CYFLOG: £23,953 - £24,920

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n chwilio am weithiwr cyfathrebiadau ac ymgysylltu ymroddedig a chreadigol i ymuno â'n Tîm Y Wasg a Chyfathrebiadau prysur a leolir yn ein Pencadlys yn Llantrisant.

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu ill dau'n chwarae rôl gritigol o fewn cenhadaeth y Gwasanaeth i 'gadw De Cymru'n ddiogel wrth leihau risg'. Bydd deilydd y swydd yn gweithio ar draws pob agwedd o gyfathrebu ac ymgysylltu, yn cynhyrchu datrysiadau arloesol wrth drefnu a hwyluso gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebiadau mewnol ac allanol. Bydd hyn yn cynnwys rheoli ymgyrchoedd, cysylltu â'r wasg, hwyluso a chydlynu digwyddiadau ymgysylltu lleol ac ar raddfa fawr.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr feddu ar sgiliau ysgrifennu cryf a'r gallu i ychwanegu dawn greadigol i'n cynnwys a gynhyrchwyd yn fewnol, gan gynnwys diwygdiadau a gweithgareddau sy'n ymwneud â recriwti, lleihau risg ac enw da'r Gwasanaeth. Bydd y swydd yn gofyn am weithio'n gydweithredol ag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid ar draws 10 o Awdurdodau Unedol gan ddefnyddio amrediad o ddulliau i sbarduno Strategaeth Gyfathrebiadau ac Ymgysylltu'r Gwasanaeth yn rhagweithiol.

O fewn y rôl amrywiol hon, ni fydd un diwrnod yr un poeth gyda therfynau amser cystadleuol, felly bydd angen i'r ysmgeisydd llwyddiannus fod yn effeithlon, yn drefnus a hyderus wrth weithio'n annibynnol. Yn ogystal â bod yn gallu defnyddio eich dyfeisgarwch a datblygu syniadau newydd, mae'r Gwasanaeth yn chwilio am aelod tîm fydd yn mwynhau gweithio'n gydweithredol. Mae'r gallu i deithio'n hanfodol ar gyfer y swydd hon, gan fydd y rôl yn gofyn am ymgysylltu ag adrannau mewnol ar draws ein Gorsafoedd a'n safleoedd o fewn De Cymru gan gynnwys partneriaid allanol a rhanddeiliaid allweddol.

Os ych chi'n storiwr creadigol sydd â llygad barcud am stori o'r newyddion, ry'n ni'n edrych ymlaen yn eiddgar i glywed gennych!

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Manyleb Person a Swydd-Ddisgrifiad o'n gwefan www.decymru-tan.gov.uk.

Dylid danfon ffurflenni cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX neu drwy law e-bost at personél@decymru-tan.gov.uk. **Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 14eg o Orffennaf am 12:00 o'r gloch.**

Nodwch nad ydym yn derbyn ffurflenni CV.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.

